

Rhif: WG44124

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o atebion

Canllawiau statudol ar gyfer y Gyfundrefn Drwyddedu a Gwerthiannau
Anifeiliaid anwes o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu
Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

Rhagfyr 2021

Trosolwg Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriad ar y canllawiau statudol drafft ar gyfer y Drefn Trwyddedu a Gwerthiannau Anifeiliaid Anwes o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021.

Sut i ymateb Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

a dogfennau cysylltiedig Mae fersiwn print mawr, Braille a fersiynau mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 i'w gweld ar:

[The Animal Welfare \(Licensing of Activities Involving Animals\) \(Wales\) Regulations 2021 \(legislation.gov.uk\)](#)

Manylion Cyswllt I gael rhagor o wybodaeth:

Lles Anifeiliaid, Tîm Anifeiliaid Anwes, OCVO

Ebost: CompanionAnimalWelfare@gov.wales

Copïau Ychwanegol Mae'r crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r dogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir ei gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

:

Cynnwys

1. Ymarfer Ymgynghori

1.1 Gwybodaeth Gefndirol

1.2 Ymgynghoriad Cyhoeddus

2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

2.1 Cwestiwn 1

2.2 Cwestiwn 2

2.3 Cwestiwn 3

2.4 Cwestiwn 4

3. Camau Nesaf

Atodiad A – Sefydliadau a ymatebodd i'r Ymgynghoriad

Ymarfer Ymgynghori

1.1 Gwybodaeth Gefndirol

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Awdurdodau Lleol roi trwyddedau ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, gyda'r nod o sicrhau safonau uchel o ran lles anifeiliaid. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'n ofynnol trefnu systemau trwyddedu ar gyfer siopau anifeiliaid anwes.

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021, ochr yn ochr â'r canllawiau statudol, wedi disodli Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 a bydd yn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i roi trwyddedau ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â set o safonau. Bydd y Rheoliadau yn galluogi Awdurdodau Lleol i archwilio'r safle, caniatáu proses apelio i'r llysoedd rhag ofn y bydd gwrthod cydymffurfio neu amodau beichus, a darparu bod gweithredu heb drwydded yn drosedd Maent hefyd yn nodi nifer o anghymhwysïadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod Lleol wrth asesu ceisiadau am drwyddedau (megis collfarn am greulondeb anifeiliaid), a chaniatáu i Awdurdod Lleol adennill y costau ar gyfer arolygu, prosesu a gwariant gorfodi drwy ffi'r drwydded.

Cafodd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 eu trafod a'u pasio yn y Senedd ar 23 Mawrth 2021, a byddant yn dod i rym ar 10 Medi 2021.

Er mwyn cefnogi'r rheoliadau hyn, datblygwyd canllawiau statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol i'w cynorthwyo gyda'r drefn drwyddedu ac agweddau ar werthiannau anifeiliaid anwes.

1.2 Y Broses Drafod

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol ar y canllawiau statudol drafft ar gyfer y Drefn Trwyddedu a Gwerthu Anifeiliaid Anwes o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021 rhwng 20 Awst ac 1 Hydref 2021.

Darparwyd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori ffurfiol, canllawiau statudol drafft a ffurflen ymateb yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru. Anfonwyd y ddolen i'r ymgynghoriad drwy e-bost at Awdurdodau Lleol, yn ogystal ag amrywiol randdeiliaid eraill.

Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Ffurfiwyd gweithgor cyn yr ymgynghoriad i fynd i'r afael â materion a godwyd yn flaenorol. Roedd y gweithgor yn cynnwys dau brif sefydliad rhanddeiliaid;

Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru a Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru. Ynghyd â'r tîm sy'n arwain Prosiect Gorfodi Awdurdodau Lleol (sy'n cwmpasu Cymru gyfan a chyfrifoldebau am hyfforddiant i swyddogion gorfodi), rhoddwyd drafft cyfrinachol o'r dogfennau i'r rhanddeiliaid hyn i dderbyn sylwadau arnynt hefyd. Roedd y dull hwn yn caniatáu ymgysylltu'n gynnar cyn yr ymgynghoriad ac yn rhoi cyngor amhrisiadwy a gwybodaeth arbenigol gan y Trydydd Sector, gan alluogi swyddogion i ddiwygio'r dogfennau gydag awgrymiadau cyn i'r ymgynghoriad ddechrau. Mae hyn yn arfer cyffredin wrth ddatblygu polisi ac mae'n darparu ar gyfer cyhoeddi dogfen ddrafft sydd wedi'i mireinio fwy ar gyfer ymgynghori.

2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Derbyniwyd cyfanswm o 62 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd pedwar cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori a chrynohoir yr ymatebion i bob un isod. Bwriedir i'r hyn sy'n dilyn fod yn grynodeb o'r ymatebion. Nid yw'n anelu at gasglu'n fanwl bob pwynt a godwyd gan ymatebwyr.

Ni atebwyd pob cwestiwn gan yr holl ymatebwyr a rhoddodd rhai ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol. Lle'r oedd hyn yn wir, mae ymatebion wedi'u cynnwys o dan y pennawd cwestiwn mwyaf priodol.

Cwestiwn 1 - A ydych yn credu, fel y mae wedi'i ddrafftio, fod y prawf busnes yn rhoi digon o gyngor i swyddogion Awdurdodau Lleol? Os nad ydych, a allwch gynnig geiriad gwahanol?

Cafwyd cyfanswm o 62 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O fewn y rhif hwn, roedd 20 o ymatebion yn ymatebion union yr un fath yn deillio o un templed ateb, ac roedd 6 ymateb arall yn ymatebion union yr un fath yn tarddu o un templed ateb, ond un gwahanol.

Roedd 14 o ymatebion unigol yn cytuno bod y prawf busnes drafft yn rhoi digon o gyngor i Awdurdodau Lleol.

Mae Dr Ed Hayes o'r Kennel Club yn *"croesawu'r geiriad sydd wedi'i gynnwys mewn perthynas â'r prawf busnes ...Credwn fod y canllawiau hyn yn ei gwneud yn glir mai dim ond y rhai sy'n wirioneddol yn y busnes o werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes fyddai angen trwydded arnynt."*

Adleisir hyn gan Battersea Dogs Home sy'n credu *"Mae'r Prawf Busnes fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd yn rhoi arwydd sylweddol i Awdurdodau Lleol o'r mathau o fusnesau y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hwy, a pha fusnesau fydd angen trwydded ac na fydd angen trwydded arnynt."*

Derbyniwyd y grŵp o 6 ymateb safonol gan Awdurdodau Lleol a mynegodd byrderon yn ymwneud â meysydd disgrisiwn yn y prawf busnes:

"Mae'r prawf busnes wedi profi'n broblemus yn Lloegr ac mae'r "elfen o ddyfarniad" wedi achosi anhawster oherwydd dehongliad a defnydd anghyson. Mae'r meini prawf y tu allan i'r cwmpas yn ychwanegu cymhlethdod pellach i'r prawf busnes a gellid dadlau ei fod yn tanseilio ac y byddai'n bosibl ei gamddefnyddio."

Cododd y grŵp hwn o ymatebion bryderon hefyd o ran

"Mae'r diffiniad o "sefydliad lles anifeiliaid anfasnachol" yn agored i'w ecsbloetio gan rai sefydliadau llai credadwy ac mae sawl enghraifft yn dod i'r meddwl. Nid yw'r prawf busnes wedi bod yn llwyddiant yn Lloegr ac mae'r Awdurdodau Lleol yn awgrymu system gofrestru/trwyddedu symlach fel yr awgrymir gan y prosiect bridio cŵn."

Mewn ymateb, drwy gydweithio â'r gweithgor rhanddeiliaid cyn yr ymgynghoriad byw, credwn ein bod yn gallu adeiladu ar ganllawiau a gyhoeddwyd yn Lloegr a datblygu ein canllawiau i roi mwy o eglurder i gynorthwyo Awdurdodau Lleol a gwerthwyr.

Mae'r prawf busnes wedi'i ddrafftio i adlewyrchu ein cwmpas arfaethedig ar gyfer y Rheoliadau cyn iddynt gael eu cytuno yn y Senedd. Adleisir hyn yn ymateb yr Awdurdod Lleol, a oedd yn nodi:

"O fewn ymateb Llywodraeth Cymru i bwynt 2 Craffu Teilyngdod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, roedd Llywodraeth Cymru yn glir, "y bydd yn ofynnol i rai bridwyr ar raddfa fach nad oedd yn ofynnol iddynt ddal trwydded o'r blaen wneud hynny o dan y rheoliadau hyn", ac "nad y bwriad yw y bydd yn ofynnol i bob bridwr bach wneud hynny". Gwnaeth y Llywodraeth ddatganiadau tebyg hefyd mewn ymateb i Gwestiynau Ysgrifenedig: "ni fwriedir i berson sydd â torraid damweiniol neu sy'n penderfynu gwerthu ci bach ar brydiau gael trwydded."

Mynegodd y grŵp o 20 o ymatebion safonol wrthwynebiad i'r prawf busnes drafft gan ddweud:

"Mae anghenion lles cŵn yr un fath p'un a ydynt yn cael eu bridio er budd masnachol neu fel hobi, ac nid oes cyfiawnhad pam nad yw cŵn bridwyr hobi yn cael yr un amddiffyniad cyfreithiol â'r rhai sy'n dod o dan y prawf busnes."

A hefyd:

Y diffyg cyffredinol yn y ddeddfwriaeth yw'r 'cwmpas' sy'n canolbwyntio ar 'elw/refeniw' yn hytrach nag anghenion lles pob ci bridio.

Cwestiwn 2 - A ydych credu, fel y mae wedi'i ddrafftio, y bydd y diffiniad o Ganolfan Ailgartrefu (y Canllaw ar Werthu Anifeiliaid Anwes, tudalen ...) yn sicrhau y bydd y safleoedd hyn yn gallu parhau i ailgartrefu cŵn a chathod bach nad ydynt wedi cael eu bridio ar y safle? Os nad ydych, a allwch gynnig geiriad gwahanol?

Roedd cyfanswm o 62 o ymatebion i'r cwestiwn, ac roedd 22 ohonynt yn cefnogi'r diffiniad drafft o Ganolfan Ailgartrefu i sicrhau y bydd y safleoedd hyn yn gallu parhau i ailgartrefu cŵn a chathod bach a nad ydynt wedi'u bridio ar y safle.

Cafwyd 8 ymateb nad oeddent yn berthnasol gan eu bod yn credu na allent wneud sylwadau ar y pwnc hwn.

Roedd cefnogaeth i'r diffiniad drafft hwn gan rai o'r canolfannau Ailgartrefu mawr yng Nghymru. Dywedodd Blue Cross ei bod yn *"falch o weld Llywodraeth Cymru wedi ystyried ein hawgrymiadau ynghylch diffinio eithriad ar gyfer sefydliadau achub ac ailgartrefu yn glir. Mae'r Blue Cross yn fodlon â'r geiriad a awgrymir."*

Cytunodd yr RSPCA *"O safbwynt RSPCA Cymru a gweithgareddau ailgartrefu, credwn fod y diffiniad hwn yn ei gwneud yn glir nad yw canolfannau achub neu ailgartrefu fel y rhai rydym yn redeg yng Nghasnewydd a Bryn-y-Maen yn rhan o'r cynllun trwyddedu gwerthu anifeiliaid anwes a gyflwynwyd drwy LAIA - ac nid yw canolfannau canghennau RSPCA ychwaith, megis Canolfan Anifeiliaid Llys Nini ym Mhenlleger. Felly, teimlwn bod y canllawiau, a'n trafodaethau gyda'r sector llywodraeth leol, yn ei gwneud yn glir y gall sefydliadau fel y rhain barhau i ailgartrefu cŵn a chathod bach nad ydynt yn cael eu bridio ar y safle."*

Nododd yr ymateb o fewn y grŵp o 20 o gyflwyniadau safonol:

"Mae anghenion lles cŵn a chŵn bach yr un fath p'un a ydynt gyda bridiwr neu Ganolfan Ailgartrefu, ac nid oes rheswm y gallir ei gyfiawnhau pam y dylai Canolfannau Ailgartrefu gael eu heithrio o amodau trwyddedu, gan gynnwys y dimensiwn cytiau. Dyma'r 'amodau' arfaethedig sydd 'ddim yn addas i'r diben'."

Mewn ymateb: mae'r Rheoliadau hyn wedi'u cyflwyno fel cam cyntaf tuag at sicrhau bod lles cŵn a chathod bach yng Nghymru yn cael ei wella'n sylweddol drwy gael eu gwerthu gan fridwyr yn uniongyrchol i'r perchennog newydd yn unig. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu cyfle a mecanwaith posibl yn y dyfodol i gwmpasu sefydliadau lles anifeiliaid eraill, megis canolfannau ailgartrefu, fel y nodir yn ein Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021-26.

Cwestiwn 3 - A ydych yn credu bod yr amodau yn y canllawiau sy'n benodol i rywogaethau yn ddigon cynhwysfawr i sicrhau lles yr anifeiliaid hyn?

Derbyniwyd cyfanswm o 62 o ymatebion i'r cwestiwn, ac roedd 16 ohonynt yn cytuno bod yr amodau penodol yn y canllawiau yn ddigon cynhwysfawr i sicrhau lles yr anifeiliaid hyn. Cafwyd 5 ymateb nad oedd yn berthnasol.

Dyweddodd Battersea *"Fel sefydliad lles cŵn a chathod yn unig, mae Battersea wedi cyfyngu ein sylwadau i Rannau C a D. Mae'r amodau sy'n benodol i rywogaethau yn y canllawiau drafft yn rhoi llawer o fanylion ar gyfer gofalu am y rhywogaethau trwyddedadwy. Mae hyn nid yn unig yn rhoi canllawiau clir i Awdurdodau Lleol, ond hefyd yn rhoi syniad clir i drwyddedeion o'r safonau a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y byddant wedi'u trwyddedu yn eu herbyn."*

Roedd y 6 ymateb safonol gan Awdurdodau Lleol yn anghytuno oherwydd materion yn ymwneud â chymhwyso meini prawf Safonau Uwch.

Ymateb: bydd parhau i drafod gyda chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol yn ceisio lleddfu pryderon yn y maes hwn.

Mynegodd y grŵp o 20 o ymatebion safonol eu bod yn anghytuno.

Cwestiwn 4 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach neu awgrymiadau ar gyfer diwygiadau?

Atebodd cyfanswm o 62 o ymatebwyr yn benodol i'r cwestiwn hwn.

Cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol gan Battersea, a ddywedodd,

"Ychydig iawn o sylwadau sydd gan Battersea, ynghyd â sefydliadau lles anifeiliaid eraill, neu awgrymiadau am ddiwygiadau i'r canllawiau drafft, oherwydd mewnbwn cyn ymgynghori yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Drwy'r gwaith cydgynhyrchol hwn drwy AWWN a CAWWG, rhoddwyd sylw i'r rhan fwyaf o'n pryderon cychwynnol gyda'r canllawiau ac ym marn Battersea cafodd y dogfennau canllaw eu gwella er budd lles anifeiliaid. Byddai Battersea yn croesawu parhau i weithio fel hyn o ran cyd-gynhyrchu gyda Llywodraeth Cymru."

Roedd themâu allweddol eraill mewn ymatebion yn cynnwys:

- Yr angen am adnoddau ychwanegol i Awdurdodau Lleol orfodi'r rheoliadau;
- Yr angen i ddarparu hyfforddiant ar gyfer gorfodi gan Awdurdodau Lleol;
- Cyflwyno cynllun cofrestru ar gyfer pob bridwr;
- Pryderon ynghylch bridwyr hobi sy'n dod o fewn cwmplas y prawf busnes;
- Problem maint cytiau;
- Pryderon ynghylch eglurder y Rheoliadau mewn perthynas â cheidwaid unigol sy'n cynhyrchu llai na tri torraid y flwyddyn, ond yn gwneud elw. Yn benodol, a ddylai gweithgareddau bridwyr o'r fath ddod o fewn Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 yn naturiol;
- Cymhwyso Safonau Uwch fel y disgrifir yn y ddogfen ganllaw;
- Methiannau canfyddedig y prosesau Ymgeisio ac Atal/Dirymu arfaethedig ar gyfer trwyddedau o fewn Rheoliadau 2021;
- Ystyriaethau addasrwydd i fridio.

Roedd rhywfaint o bryder hefyd ynghylch diffyg gwybodaeth arbenigol fanwl am adar, ymlusgiaid a physgod. Am y rheswm hwn, ac ar ôl deialog â Chynghorydd Milfeddygol Llywodraeth Cymru, cafodd rhai ychwanegiadau eu cynnwys yn y canllawiau yn y meysydd hyn.

3. Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r holl ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r ymgynghoriad. Er nad yw'r adroddiad hwn yn ceisio ymateb i bob mater a godwyd, mae'r holl bryderon wedi cael eu hystyried yn ofalus wrth lunio fersiwn derfynol y canllawiau statudol a'r cymorth ar gyfer gweithredu wrth symud ymlaen.

Nodir bod y dull a gymerwyd i gyd-ddatblygu'r canllawiau drafft gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn cael ei ystyried yn werthfawr ac yn adeiladol gan y grwpiau hyn.

Ein dull o beidio â gorgymhlethu'r canllawiau drwy gyfeirio at bopeth y gellir ei wneud, gan y gallai roi'r argraff na chaniateir unrhyw beth nad yw wedi'i restru o fewn ffiniau'r dyletswyddau. Croesawyd y dull mwy caniatadol a llai penodol hwn gan nifer o ymatebwyr, ac mae'n adlewyrchu dull y cytunwyd arno gyda phartneriaid llywodraeth leol ar ddechrau cyd-ddatblygu'r canllawiau.

Codwyd rhai pwyntiau hefyd drwy'r ymgynghoriad na allwn ymateb iddynt drwy'r canllawiau. Bwriad y canllawiau yw hwyluso gweithredu Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021 ac ni all gynnwys unrhyw ddyletswyddau nad oeddent wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth.

Cyhoeddwyd y canllawiau statudol terfynol ym mis Hydref 2021 a bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol roi sylw i'r canllawiau. Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau i sicrhau bod y Rheoliadau'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Atodiad A – Sefydliadau a ymatebodd i'r Ymgynghoriad

Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA)

Blue Cross

Battersea Dogs Home

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Sector Anifeiliaid Anwes (CASC)

The Dogs Trust

The Kennel Club

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Ornamental Aquatic Trade Association (OATA)

The People's Dispensary for Sick Animals (PDSA)

Reptile and Exotic Pet Trade Association (REPTA)

Cyngor Rhondda Cynon Taf

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA)

Cyngor Abertawe

Prifysgol Lincoln

Welsh Association of Licensed Dog Breeders (Honesty in Dog Policy)